Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

25 Awst 2020

Annwyl Mark

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

Gwnaethom drafod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (y Rheoliadau) yn ein cyfarfod ar 24 Awst a gosodwyd ein **hadroddiad** gerbron y Senedd ar yr un diwrnod.

Mae ein hadroddiad yn nodi dau bwynt o dan Reol Sefydlog 21.2 ac mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud ag amheuaeth a yw'r Rheoliadau intra vires.

Mae'r Rheoliadau'n creu troseddau newydd sy'n ymwneud â hysbysiadau cau mangre, sydd â chosb o hyd at 6 mis o garchar neu ddirwy ynghlwm â hwy. Fodd bynnag, mae *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984* yn darparu na ellir cosbi am droseddau o'r fath trwy garcharu.

Yn ein hadroddiad, nodwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi sylw i'r mater hwn yn **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020** (y Rheoliadau diweddarach), trwy ei gwneud yn glir mai dim ond drwy ddirwy y gellir cosbi am droseddau o'r fath.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu gan y bu'r ddarpariaeth yn ymwneud â charcharu mewn grym rhwng 10 Awst 2020 a 17 Awst 2020.

Nodwn fod y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau diweddarach yn nodi bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Farnwrol wedi cael gwybod ar 10 Awst am y gwall y mae'r Rheoliadau diweddarach yn eu cywiro.

Mae ein hadroddiad ar y Rheoliadau a osodwyd gerbron y Senedd yn gofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau na chafodd y ddarpariaeth afreolaidd unrhyw effaith ymarferol yn ystod y cyfnod 10-17 Awst. Os cafwyd unrhyw effeithiau ymarferol, byddem yn ddiolchgar pe gallem gael y wybodaeth fanwl berthnasol. At hynny, a allwch gadarnhau sut yr hysbyswyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Farnwrol am y gwall a pha drafodaethau perthnasol a gynhaliwyd gyda nhw ar y pryd, neu yn ystod y dyddiau dilynol.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English